

Cydgysylltu'r System Fwyd

1. Diben y papur

Cynhyrchwyd y papur hwn gan [Gynghrair Polisi Bwyd Cymru](#) (gweler Atodiad A). Diben y papur yw dangos sut y gall cymhwyso dull sy'n seiliedig ar systemau i bolisïau sy'n gysylltiedig â bwyd greu synergedd ar draws adrannau'r llywodraeth er mwyn cyrraedd targedau polisi sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant, cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol a gwytnwch cymunedol. Mae'r papur yn rhoi sylw arbennig i'r cyfle i greu cysylltiadau drwy'r Rhaglen Economi Sylfaenol a'r Bil Amaethyddiaeth arfaethedig ac yn awgrymu bod cyfleoedd drwy'r Strategaeth Bwyd Cymunedol arfaethedig (un o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu) i roi'r trefniadau integreiddio a Llywodraethu angenrheidiol ar waith i greu System Fwyd amrywiol a gwydn i Gymru. Dengys sut y gallwn gynyddu effaith gadarnhaol polisïau a rhaglenni gwaith presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg drwy gysylltu gwahanol rannau o system fwyd Cymru â'i gilydd yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen Economi Sylfaenol, y Mesur Amaethyddol arfaethedig, Pwysau Iach Cymru Iach, y Strategaeth Bwyd a Diod, y cwricwlwm Addysg, Caffael Cyhoeddus a Phartneriaethau Cymdeithasol, Cynllun Sero Net Cymru a Thargedau Adfer Natur. Dengys y papur sut y gall seilwaith a mecanweithiau bwyd cymunedol arwain at gyflawni amcanion a bennir ar draws adrannau'r llywodraeth ac agendâu polisi ac mae'n awgrymu y gallai polisi bwyd canolog, fel y Strategaeth Bwyd Cymunedol, gyflawni'r newidiadau hyn. Mae ehangu'r cysyniad o daliadau am fuddion cymdeithasol ac amgylcheddol i ddatblygu polisi sy'n berthnasol i randdeiliaid systemau bwyd ehangach eisoes wedi'i gydnabod yn y papur Gwyn ar Amaethyddiaeth, lle y nodwyd bod cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi ehangach yn rhan annatod o gefnogi'r sector ffermio.

2. Cyfleoedd i Integreiddio Polisi

Mae'r trywydd cyffredinol fel y'i nodir yn y Papur Gwyn Amaeth (Cymru) yn cynnwys nifer o elfennau a all o bosibl gysylltu'n dda â pholisi system fwyd gan gynnwys yr angen i gefnogi newidiadau i arferion ffermio sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Cydnabyddir y dylai busnesau fferm wella effeithlonrwydd eu model busnes gan weithredu o fewn galluoedd naturiol eu tir, lleihau eu dibyniaeth ar fewnbynnau allanol a manteisio ar y cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu er mwyn cyflawni canlyniadau amgylcheddol. Mae'r trywydd hwn yn cyd-fynd yn dda â dull [Uchafswm Allbwn Cynaliadwy](#) a'r egwyddorion amaeth-ecoleg yn yr Alban (gweler Atodiad B). Yn nogfen y Gynghrair Polisi Bwyd, sy'n dwyn y teitl "[System fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau Dyfodol](#)" (gweler Atodiad A), rydym yn galw am sicrhau bod pob fferm yng Nghymru yn cynhyrchu'n gyfan gwbl drwy ddull amaeth-ecolegol erbyn 2030 er mwyn atal a gwyrddroi colli natur a chynyddu gwytnwch yn yr hinsawdd ac mae Ymchwil diweddar gan y [Comisiwn Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad ac IDDRi yn dangos bod hyn yn drywydd hyfyw a dymunol](#).

Ceir cyfle amlwg i gysylltu rhaglen yr Economi Sylfaenol â'r trywydd a nodir ym Mhapur Gwyn Amaeth (Cymru). Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu ei gefnogaeth i arferion ffermio amaeth-ecolegol/adfywiol. Gellid defnyddio'r rhaglen Economi Sylfaenol i helpu i greu'r galw/marchnadoedd ar gyfer cynhyrchu bwyd mewn dull amaeth-ecolegol/adfywiol. Gellid cysylltu'r dulliau hyn drwy bolisi system fwyd sy'n targedu cymorth i ffermwyr amaeth-ecolegol sy'n cymryd rhan mewn cadwyni cyflenwi ar raddfa gymunedol, lle mae arian sy'n cael ei wario ar fwyd yn aros yn yr economi ranbarthol, gan gefnogi swyddi a ffermwyr. Mae datblygu seilwaith bwyd yn allweddol i gefnogi cadwyni cyflenwi cymunedol a darganfod ffyrdd amrywiol o gysylltu cynhyrchwyr bwyd amaeth-ecolegol â defnyddwyr gyda chanlyniadau iechyd cadarnhaol, a thrwy hynny gysylltu â'r Strategaeth Cymru Iach Pwysau Iach. O dan bolisi system fwyd, byddem yn awgrymu'r mentrau a ganlyn, sydd i gyd yn cyfrannu at greu cadwyni cyflenwi gwydn ar raddfa gymunedol:

- i. **Gallai buddsoddi mewn cyfleusterau prosesu ar raddfa gymunedol** helpu i droi cynnyrch amaethyddol Cymru yn gynhyrchion gwerth uwch. Mae diffyg capasiti prosesu yn system

fwyd Cymru yn gwneud y system yn llai addasadwy a gwydn, ac yn ychwanegu milltiroedd bwyd diangen at gynhyrchion Cymru. Gweler, er enghraifft Melin Ddŵr Felin Ganol (facebook.com/FelinGanolWatermill).

- ii. **Buddsoddi mewn marchnadoedd bwyd, manwerthwyr cymunedol, cydweithfeydd bwyd a rhwydwaith o hybiau bwyd** ledled Cymru gyfan sy'n cydgasglu ac yn dosbarthu bwyd lleol sy'n cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy. Bydd hyn yn helpu i ddarparu mwy o swyddi lleol yn y sector bwyd, cadw mwy o wariant yn lleol a helpu i arallgyfeirio a chryfhau ein heconomiâu lleol. Yn wir, mae [adroddiad diweddar](#) yn tynnu sylw at y ffaith y gallai newid o 10% ym marchnad manwerthu bwyd y DU tuag at systemau bwyd lleol mwy cynaliadwy esgor ar hyd at 200,000 yn fwy o swyddi, cefnogi adferiad economaidd gwyrdd ac adfer natur. Dylai hybiau bwyd gael eu lleoli yn agos at gyfleusterau prosesu sy'n canolbwyntio ar egwyddorion ecolegol, masnachu teg a gwerthoedd uchel yn ymwneud â llesiant. Byddai hybiau bwyd yn dod â chynhyrchwyr ynghyd i gyflenwi swm priodol o fwyd o ansawdd uchel ar y raddfa gywir i'r sector cyhoeddus a'r sector lletygarwch¹.
- iii. **Ymgorffori gwir werth mewn prosesau caffael drwy sicrhau bod bwyd lleol a rhanbarthol sy'n cael ei gaffael yn gyhoeddus a'i gynhyrchu mewn ffyrdd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd (wedi'i nodi drwy ardystiad a [metrigau fferm](#) ac yn gysylltiedig â safonau maethol bwyta'n iach) yn agwedd allweddol ar gynlluniau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** Gallai datblygu safonau prynu cadarn ar gyfer y Llywodraeth sy'n cyd-fynd ag arferion ffermio amaeth-ecolegol/adfywiol yng Nghymru ac ymrwymadau sy'n atal datgoedwigo fod o gymorth pellach yn hyn o beth (fel y nodwyd yn yr adroddiad [Cymru a Chyfrifoldeb Byd-Eang](#)). Gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gyfuno eu gwariant ar gaffael i greu marchnadoedd cyhoeddus mwy hyfyw i gyflenwyr lleol eu gwasanaethu. Gellid ategu hyn gan "Rwydwaith Bwyd Economi Sylfaenol Cymru" sy'n cynnwys cynhyrchwyr, cyflenwyr bwyd, darparwyr gwasanaeth a chaffael - pob un yn gweithio gyda'i gilydd i oresgyn heriau ac adeiladu ar gyfleoedd ar gyfer darparu bwyd yn y sector cyhoeddus a'r gymuned. Gweler Atodiad C i gael rhagor o wybodaeth am ffordd bosibl ymlaen ar gyfer caffael yn dilyn profiadau a gofnodwyd gan brosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n canolbwyntio ar gaffael bwyd yn Sir Gaerfyrddin.
- iv. **Cysylltu cynhyrchwyr bwyd â defnyddwyr mewn ffyrdd mwy amrywiol, gan gynnwys symleiddio mynediad at gynnyrch lleol i aelwydydd a'r sector lletygarwch.** Mae cefnogaeth ar gyfer cynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG) yn bwysig yma fel partneriaeth rhwng ffermwyr a defnyddwyr. Mae ymchwil barhaus (TGRAINS) yn dangos manteision i iechyd a chynaliadwyedd amgylcheddol yn sgil diet AGG: mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn AGG yn bwyta mwy o lysiau a chodlysiau a llai o gig, siwgr a braster o gymharu â chyfranogwyr y grwpiau rheoli, ac o ganlyniad mae eu hallyriadau CO2 28% yn is. Gall y cyfuniad o bartneriaeth rhwng cynlluniau AGG, elusennau cymorth bwyd a chynghorau lleol, modelau undod a chyllid ALL greu cyfleoedd i ddarparu llysiau â chymhorthdal ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd, gan gefnogi targedau polisi bwyta'n iach, cyfiawnder cymdeithasol, lleihau allyriadau i sero a bioamrywiaeth.
- v. **Gweithio gyda'r rhwydwaith newydd o Bartneriaethau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru wedi'i hwyluso drwy Sustainable Food Places a Synnwyr Bwyd Cymru i ddatblygu trefniadau Llywodraethu a chmau gweithredu lleol ar gyfer y System Fwyd.** Cafodd cymorth i sefydlu partneriaeth bwyd ym mhob ALL ei nodi fel blaenoriaeth gan y Tasglu Adfer

¹ Mae aelod o Gynghrair Polisi Bwyd Cymru wedi gwneud cais am arian i dreialu'r dull hwn drwy gynllun effeithlonrwydd cadwyn gyflenwi y Cynllun Datblygu Gwledig.

Gwyrdd ac mae'r rhwydwaith yng Nghymru bellach yn cynnwys dros draean o ardaloedd awdurdodau lleol. Mae partneriaethau a chynlluniau bwyd cynaliadwy traws-sector yn darparu llwyfan ar gyfer llywodraethu systemau bwyd lleol, fel y dangosir yn Brighton a Hove, y ddinas gyntaf i ennill gwobr Aur Dinas Bwyd Cynaliadwy. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwmo i ddatblygu cyfleoedd tyfu a chynhyrchu bwyd masnachol yn y ddinas fel rhan o gynllun bwyd ehangach y Cyngor ac fel rhan o [Strategaeth Bwyd Da 2021-21](#) Bwyd Caerdydd tuag at gyflawni statws Aur lle bwyd cynaliadwy. Mae'r partneriaethau hyn yn chwarae rhan bwysig wrth wneud bwyd yn fwy hygyrch i'r rhai sy'n byw gydag ansicrwydd bwyd, drwy integreiddio â chynlluniau Llesiant er enghraifft. Gellid mabwysiadu dull tebyg i sicrhau bod integreiddio polisi a llywodraethu yn cael eu hefelychu drwy feganwaith fel Comisiwn ar gyfer y System Fwyd (gweler Atodiad D).

- vi. **Adeiladu'r sgiliau sydd eu hangen i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o gynhyrchwyr bwyd a dinasyddion bwyd yn y dyfodol** o ddatblygu modiwlau system fwyd trawsgwricwlaidd yn y cwricwlwm newydd i ddatblygu cynlluniau newydd ac adeiladu arnynt er mwyn cefnogi'r sgiliau sydd eu hangen i gaffael, cynhyrchu a chyflenwi bwyd iach yn gynaliadwy. Gellid datblygu sgiliau penodol fel caffael drwy'r rhaglen economi sylfaenol sy'n gysylltiedig â safonau cynhyrchu a chynlluniau hyfforddi a gynigir yn y Papur Gwyn Amaeth, a ddylai fod ar gael i ffermwyr cyfredol a ffermwyr sy'n newydd-ddyfodiaid.

Ni ellir ystyried y mentrau uchod ar eu pen eu hunain. Mae gwahanol rannau o'r system fwyd yn rhyng-gysylltiedig: mae gweithgareddau mewn un rhan o'r system yn arwain at ganlyniadau i rannau eraill ohoni, gan gael effaith ar y system gyfan. Gall **polisi system fwyd** adnabod y cysylltiadau hyn yn benodol a chreu gweledigaeth ar gyfer integreiddio gwahanol rannau o'r system fwyd yng Nghymru, fel y dangosir uchod, fel y gallwn feddwl yn strategol am yr hyn yr ydym yn buddsoddi ynddo o ganlyniad i'r weledigaeth honno.

3. Enghreifftiau o "Gydgysylltu"

Mae enghreifftiau da i'w gweld yng Nghymru ([ac ar draws y DU](#)) i ddangos sut i gysylltu arferion ffermio amaeth-ecolegol/adfywiol â chadwyni cyflenwi bwyd ar raddfa gymunedol (gweler astudiaeth achos Slade Farm isod). Mae yna enghreifftiau da hefyd yn y DU o botensial hybiau bwyd i hyrwyddo dosbarthu bwyd mewn cadwyni cyflenwi ar raddfa gymunedol (gweler astudiaeth achos y Rhwydwaith Bwyd Agored isod). Byddai cefnogi seilwaith bwyd fel cyfleusterau prosesu a hybiau bwyd lleol, ynghyd â mecanweithiau fel caffael, wedi'u cefnogi gan bartneriaethau bwyd cynaliadwy, yn helpu Cymru i uwchraddio mentrau fel Slade Farm i ymgorffori dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â'n system fwyd yng Nghymru.

Astudiaeth Achos: Slade Farm

Mae Slade Farm, Fferm Organig Gymysg yn Ne Cymru, yn enghraifft dda o sut i ddangos gwerth cadwyn gyflenwi bwyd ar raddfa gymunedol yn seiliedig ar fwyd mwy maethlon o ansawdd uwch, wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy.

Mae Slade Farm yn enghraifft dda o sut i ffermio gan ddefnyddio egwyddorion amaeth-ecolegol er mwyn gwella bioamrywiaeth, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu bwyd maethlon. Caiff gwenith yr Almaen a dyfir ar y fferm ei falu ym Melin Ddŵr Felin Ganol, ei becynnu a'i werthu i gwsmeriaid yn siop y fferm. Mae da byw sy'n cael eu magu ar y fferm yn cael eu lladd yn lleol, eu bwtsiera yn Slade Farm a'u gwerthu mewn bocsys cig misol a thrwy siop y fferm. Caiff y porthiant ar gyfer y da byw i gyd ei gynhyrchu ar y fferm. Mae Slade Farm hefyd yn rhedeg cynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG) sy'n cysylltu pobl â chynhyrchion cynradd drwy

gyflenwad lleol o gig a llysiau. Daw hyn â'r gymuned leol ynghyd, gan greu cyfalaf cymdeithasol, ailgysylltu pobl â'r tir a helpu i lunio patrymau ymddygiad a all arwain at ganlyniadau cadarnhaol i iechyd a maeth. Yn 2021, creodd Slade Farm bartneriaeth â Splice Child and Family Project i greu model cydgefnogaeth ar gyfer ariannu bagiau llysiau ar gyfer y rhai sy'n wynebu ansicrwydd bwyd yn ardal cyngor sir Pen-y-bont ar Ogwr. Cafodd aelodau AGG gyfle i ariannu bocsys llysiau ychwanegol, a gyflenwir i ddeg o aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd, y rhoddwyd aelodaeth lawn iddynt o'r AGG. Cynlluniodd aelodau'r AGG Ddiwrnod Hwyl ar y Fferm ar Slade Ffarm, gan godi £1300. Llwyddodd Splice a Slade Farm i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru hefyd a fu o gymorth pellach i dalu cost bocsys llysiau.

Astudiaeth Achos: Y Rhwydwaith Bwyd Agored

Cwmni cydweithredol platform sy'n cefnogi datblygu hybiau ar gyfer dosbarthu bwyd yn lleol yw'r Rhwydwaith Bwyd Agored. Ymhlith yr aelodau mae cynhyrchwyr bwyd a hybiau a siopau bwyd. Drwy'r platform ar-lein, gall cynhyrchwyr werthu i siopau a hybiau eraill yn ogystal ag yn uniongyrchol i ddefnyddwyr; gall cyfanwerthwyr reoli grwpiau prynu a chyflenwi hybiau bwyd; gall cymunedau sefydlu hybiau bwyd sy'n galluogi masnachu a dosbarthu yn y gymuned leol.

Mae enghreifftiau o hybiau deinamig yn Lloegr yn cynnwys [Hyb Bwyd Caergrawnt](#) a hyb tyfu bwyd lleol [Dyffryn Tamar](#). Ledled y DU mae 1,697 o gynhyrchwyr bwyd yn defnyddio'r Rhwydwaith Bwyd Agored. Mae 786 o siopau/hybiau, a 10,105 o siopwyr unigol yn defnyddio'r platform. Dechreuodd trosiant y siopau/hybiau gynyddu'n gyflym yn ystod y cyfnod clo cyntaf wrth i bobl gael gafael ar fwyd mewn gwahanol ffyrdd.

Yng Nghymru, mae gennym ychydig dros 120 o gynhyrchwyr garddwriaeth fasnachol a dim ond 19 o siopau/hybiau. [Bydd y cyllid newydd hwn](#), Bydd y cyllid newydd hwn, a roddwyd yn ddiweddar o dan raglen [ENRaW](#), yn gwneud gwahaniaeth mawr i seilwaith hybiau bwyd Cymru. Bydd pum hyb bwyd arloesol newydd ar waith yng Nghymru erbyn mis Mehefin 2023 a bydd y profiad o sefydlu'r hybiau hyn yn cyfrannu at ddeunyddiau dysgu a fydd ar gael i holl gymunedau Cymru sydd â diddordeb mewn sefydlu hybiau bwyd yn y dyfodol. At hynny, bydd cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Rhwydwaith Bwyd Agored i weithio gyda dau hyb bwyd a gwasanaethau cyhoeddus lleol i archwilio sut y gellir addasu'r Rhwydwaith Bwyd Agored i hwyluso prynwyr yn y sector cyhoeddus i gaffael bwyd lleol o Gymru.

Sylwadau i Gloi - Cyfrifo'r Gwir Gost

Rhaid i ailadeiladu system fwyd fwy gwydn a chynaliadwy fod yn rhan allweddol o'n llwybr tuag at drawsnewidiad "gwydn a chyfiawn" ar y cyd. Gallai integreiddio polisi helpu i fynd i'r afael ag argyfyngau lluosog (hinsawdd, natur, iechyd y cyhoedd) ac mae ganddo'r potensial i greu marchnadoedd newydd a chefnogi swyddi gwyrdd fel rhan o drawsnewidiad gwyrdd.

Er bod buddsoddi mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â bwyd, er enghraifft o **Gronfa Her yr Economi Sylfaenol**, i'w groesawu, rhaid ystyried buddsoddi drwy lens [Cyfrifo'r Gwir Gost](#) fel bod cost ffactorau allanol fel afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet, newid yn yr hinsawdd a cholli natur yn cael ei chynnwys mewn modelau cyllido newydd sy'n creu ffynhonnell gyllid hirdymor a diogel i dyfyrwyr cymunedol, cyflenwyr, dosbarthwyr a sefydliadau eraill sy'n rhan o ymwneud â gwasanaethau darparu bwyd lleol sy'n arwain at well cynaliadwyedd amgylcheddol yn ogystal â chanlyniadau iechyd cyhoeddus

cadarnhaol. Gall y dull polisi hwn gefnogi ystod fwy amrywiol o unigolion a sefydliadau sy'n rhan o gadwyni cyflenwi cymunedol, gan gynhyrchu patrymau defnydd mwy gwydn sy'n cyd-fynd â thargedau polisi iechyd, bioamrywiaeth a lleihau allyriadau i sero.

Atodiad A

Mae **Cynghrair Polisi Bwyd Cymru** yn gynghrair o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n adeiladu ac yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru.

Trwy gydweithredu, ymgysylltu ac ymchwil nod y Gynghrair yw:

- Cyd-gynhyrchu gweledigaeth ar gyfer system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu cynhyrchu, cyflenwi a defnyddio ac yn rhoi ystyriaeth gyfartal i iechyd a lles pobl a natur.
- Eirioli dros newid polisi i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, argyfwng iechyd y cyhoedd a'r cynnydd mewn ansicrwydd bwyd.
- Sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â pholisi'r DU, cyfleoedd ymchwil a'r system fyd-eang ehangach.

Cyn etholiadau'r Senedd yn 2021, fe gyhoeddodd Cynghrair Polisi Bwyd Cymru set o ofynion fel rhan o'r papur 'Ein Blaenoriaethau ar gyfer System Fwyd sy'n addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.' Gellir gweld y ddogfen yn ei chyfanrwydd [yma](#).

Comisiwn System Fwyd

O fewn blwyddyn gyntaf ei dymor, dylai Llywodraeth nesaf Cymru benodi Comisiwn System Fwyd annibynnol, traws-sector. Dylai'r comisiwn fod yn gyfrifol am ddatblygu rhaglen fapio i gyflenwi 'System Fwyd sy'n addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol', sy'n gweddu i egwyddorion amaetholeg. Dylai'r rhaglen fapio ystyried y chwe phrif flaenoriaeth ganlynol:

1

Bwyd i bawb

Cymru fydd y genedl gyntaf i ddileu'r angen ar gyfer banciau bwyd erbyn 2025. Bydd gan bawb yng Nghymru fynediad at y bwyd sydd ei angen arnynt mewn ffordd urddasol, er mwyn byw bywyd iach.

2

Bwyd er budd iechyd y cyhoedd

Cynhyrchir 75% o'r llysiau a argymhellir gan Eatwell mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru ar gyfer Cymru erbyn 2030.

3

System fwyd sero net

Datblygu cynllun erbyn 2022 i gyflenwi system fwyd sero net i sicrhau asesu a gweithredu camau cyflym ar gyfer Cymru. Y targed yw i Gymru gael System Fwyd Sero Net erbyn 2035.

5

Bwyd môr cynaliadwy

Gosod cyfyngiadau dalfeydd (heb unrhyw oedi pellach) sy'n galluogi adfer a chynnal stociau pysgod uwchben lefelau biomas sy'n arwain at Uchafswm Cnwdd Cynaliadwy.

4

Ffermio er budd natur a'r hinsawdd

Llunio rhaglen fapio erbyn 2022 i fabwysiadu egwyddorion amaetholegol ar draws yr holl system fwyd gan gynnwys 100% o gynhyrchiant amaetholegol erbyn 2030 ar bob fferm, er mwyn atal a gwyrdroi'r natur a gollir ac i gynyddu cydnheredd o safbwynt yr hinsawdd.

6

Swyddi a bywoliaethau cynaliadwy yn y sector bwyd

Bydd pawb sy'n ennill bywoliaeth yn y system fwyd yn derbyn, neu'n gallu derbyn, o leiaf cyflog byw neu gyflog teg am eu gwaith. Bydd y gwaith, boed ar y tir neu'r môr, yn rhydd rhag arferion o gamddefnyddio, ac yn amrywiol, yn ddiddorol ac yn rymusol.

Food Policy Alliance Cymru
is a coalition of organisations
and stakeholders building and
promoting a collective vision
for the Welsh food system.

CARDIFF
UNIVERSITY
Sustainable Places
Research Institute
Sefydliad Ymchwil
Mannau Cynaliadwy

Food, Farming
& Countryside
Commission

Food Secure Wales
Tynnu'r Bwyd Eiddo

Let's Eat Better
Cymru

OXFAM

yn rhoi
cartref i
fyd natur
Cymru

SLADE FARM
ORGANICS.com

Social Farms
& Gardens
Ffermydd o Gerddi
Cymdeithasol

SUSTAINABLE
FOOD places
od'n

UAC
urban agriculture
consortium

WWF

Atodiad B

Diffiniad o Amaethecoleg, a addaswyd o Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedoledd Unedig 2019

“Agroecology is based on applying ecological principles to optimize the relationships between plants, animals, humans and the environment, as well as strengthening the aspects of a sustainable and fair food system.

Through building these relationships, agroecology supports food production, food security and nutrition, while restoring the ecosystems and biodiversity that are essential for sustainable agriculture. Agroecology can play an important role in adapting to climate change.

Agroecology is grounded in place-specific design and organization, of crops, livestock, farms and landscapes, conserving cultural and knowledge diversity, with a focus on women’s and young people’s roles in agriculture.

To harness all the benefits from adopting agroecological approaches, the right conditions are required, adapting policies, public investments, institutions and research priorities. Agroecology is the basis for growing food systems that are equally strong in environmental, economic, social and agronomic dimensions.”

Adapted from UN FAO 2019

Atodiad C

Mae casgliadau Prosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n canolbwyntio ar gaffael bwyd yn Sir Gaerfyrddin, yn awgrymu bod y dulliau mwyaf llwyddiannus yn syntheseiddio'r elfennau canlynol:

- Dull wedi'i yrru gan dargedau sy'n nodi amcanion tymor byr, canolig a hir ar gyfer defnyddio bwyd lleol, cynnyrch cynaliadwy a gwerth maethol.
- Gosod targedau realistig ond uchelgeisiol a fydd yn cymell yr ochr gyflenwi leol i dyfu i fodloni ymrwymadau galwadau gan y sector cyhoeddus
- Diffinio ystyr geiriau fel “lleol”, “cynaliadwy” a “gwerth maethol” yn y cyd-destun hwn a dod o hyd i ffyrdd o'u mesur fel y gellir eu hymgorffori wrth ddiffinio gwerth ar gyfer fframweithiau caffael cyhoeddus
- Partneriaethau cryf gyda ffermwyr, tyfwyr a chynhyrchwyr bwyd eilaidd i gydamseru galw esblygol â'r cyflenwad ac i ddylunio fframwaith sefydlog o gontractau a phrisio i hwyluso twf.
- Datblygiad cyfochrog o lwybrau i'r farchnad yn yr economi ehangach gan ddefnyddio'r systemau cydweithredu a dosbarthu a rennir gan alw y sector cyhoeddus i symleiddio mynediad i gynhyrchion lleol gan aelwydydd a'r sector lletygarwch.

Mae dealltwriaeth o werth cyflenwad bwyd mwy lleol yn seiliedig ar gynnyrch o ansawdd uwch, mwy maethlon, wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy, bellach yn cael ei yrru'n fwy brys gan:

- Ddiogelwch economaidd - yr angen i adfywio a thyfu'r economi wledig trwy ddull sylfaen gyda llawer mwy o werth yn aros yn yr ardal o ganlyniad i gyflenwad uniongyrchol a thwf mewn cynhyrchu bwyd eilaidd yn seiliedig ar amaethyddiaeth gynradd. Mae effeithiau economaidd Covid 19 a Brexit wedi gwneud hyn yn bwysicach fyth o ran gweithgaredd economaidd a swyddi.
- Yr amgylchedd - yr angen i ysgogi newid mewn amaethyddiaeth i sicrhau allyriadau net sero a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Mae amgylchedd iach yn sail i gynhyrchu bwyd.

- Iechyd – mae graddfa a llwybr cyfredol clefydau sy'n gysylltiedig â diet a'r cyfle i yrru newid dietegol trwy'r plât cyhoeddus - yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion ac ysbytai - nid yn unig o ran ansawdd yr hyn sy'n cael ei fwydo i bobl yn y sefydliadau hynny ond hefyd wrth sefydlu arferion bwyta tymor hir trwy esiampl ac addysg.

Atodiad Ch

Comisiwn Bwyd i Gymru

Cyn etholiadau'r Senedd yn 2021, lansiodd [Cynghrais Polisi Bwyd Cymru](#) [bapur](#) a oedd yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer system fwyd a fyddai'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Prif 'gais' y papur oedd i Lywodraeth nesaf Cymru benodi Comisiwn ar gyfer y System Fwyd, a fyddai'n draws-sector ac annibynnol; i fod yn gyfrifol am ddatblygu map i gyflawni 'System Fwyd Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol', yn cyd-fynd ag egwyddorion amaeth-ecoleg a datblygu deiet iach i bawb.

Diben y papur isod yw darparu rhai manylion ac esbonio'r syniad a'r dull gweithredol o greu Comisiwn ar gyfer y System Fwyd, drwy ystyried y canlynol:

- Pam mae angen comisiwn ar gyfer y System Fwyd (neu strwythur tebyg)?
- Beth yw rôl bosibl y Comisiwn?
- Sut y gellid strwythuro'r Comisiwn?
- Sut y byddai'r Comisiwn yn gweithredu a sut y byddai'n sicrhau atebolrwydd ac yn adfer ein system fwyd?

1. Pam mae angen Comisiwn Bwyd arnom?


Mae angen Comisiwn annibynnol ar gyfer y System Fwyd ar fyrder i adfywio ac ailgyfeirio egni i gysylltu'r meysydd polisi hynny sydd ar wahân ar hyn o bryd: Amaethyddiaeth, maeth, iechyd, yr amgylchedd, addysg a'r economi. Mae angen i'r Comisiwn alluogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio a datblygu polisiau integredig sy'n codi uwchlaw cylchoedd gwleidyddol ac yn cynhyrchu ac yn hybu'r gallu i greu system fwyd gynaliadwy a chyfiawn i bawb. Nid yw'r dulliau adrannol presennol o greu polisiau sy'n gysylltiedig â bwyd yn manteisio ar gyfleoedd i greu synergedd gyda pholisiau eraill. Mae angen y synergedd hwn er mwyn hwyluso'r broses o drawsnewid y system fwyd er mwyn darparu mynediad cyfartal at fwyd – gan gynnwys hawl Plant i fwyd, deiet iach, adfer bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn cyfleu natur gymhleth y dirwedd polisiau bwyd a'r angen brys am Gomisiwn, rydym wedi mapio prydau ysgol am ddim fel enghraifft o un maes allweddol. Mae'r diagram isod yn dangos yn glir, er mwyn llunio polisi ar brydau ysgol am ddim, byddai angen ystyried o leiaf chwe phortffolio Gweinidogol, sef: Addysg, Iechyd Cyhoeddus, yr Economi, Llywodraeth Leol, Bwyd/yr Amgylchedd a Nawdd Cymdeithasol. Oherwydd mai dim ond un portffolio sy'n arwain ar ôl i'r Cabinet wneud penderfyniad, rydym yn credu bod angen dull arall o gefnogi prosesau datblygu polisiau.

Mae'r hawl i brydau ysgol am ddim yn fater pwysig. Nid yw llawer o'r plant sy'n byw mewn tldi yn gymwys bellach, ac er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru – yn arbennig yn ystod y pandemig – nid yw hawl plant i fwyd yn cael ei gynnal, ac mae anghydraddoldeb addysgol ac anghydraddoldeb iechyd yn dwysáu.

Yn y cyfamser, mae yna gyfle heb ei gyffwrdd i'n ffermwyr, cynhyrchwyr, cadwyn gyflenwi ac arlwywyr helpu i gyflenwi bwyd iach lleol ac i ffynnu - angen sy'n cael ei amlygu ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Amaethyddiaeth, a hynny'n briodol. Ar yr un pryd, mae Cymru'n colli'r cyfle i ddatblygu'r safonau mwyaf blaenllaw yn y byd sy'n diogelu ein hamgylchedd, iechyd ein plant ac

sydd hefyd yn darparu elw teg i'r gadwyn gyflenwi gyfan. Gallai hyn ddarparu'r cyfle delfrydol i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o ddinasyddion bwyd, ffermwyr, cynhyrchwyr a pherchnogion bwytai.



Mae yna lawer o gyfleoedd eraill heb eu cyffwrdd, i ailwampio ein polisiau bwyd i sicrhau eu bod i gyd yn mynd i'r un cyfeiriad - polisiau ffermio, datblygiad gwledig, datblygiad garddwriaethol, masnach a marchnata.

O ganlyniad, mae angen Comisiwn ar gyfer y System Fwyd ar fyrder i ymateb i'r tair her gysylltiedig y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy **gyda'n gilydd**.

- Mae **Covid a Brexit** wedi cyfuno i amlygu ymhellach y gwendidau iechyd y cyhoedd a oedd eisoes yn hysbys i ni yng Nghymru. Mae anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â deiet yn elfen hollbwysig o'r rhain. Ar hyn o bryd (yn 2021) rydym yn wynebu amodau lle mae'r materion hyn yn debygol o waethgu yn hytrach na gwella, oni allwn weithredu gyda'n gilydd.
- Mae angen ailgyfeirio **economi fwyd a ffermio sylfaenol Cymru** i ddarparu budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth i'r busnesau bach a chanolig bwyd a lletygarwch a busnesau ffermio ddechrau adfer yn dilyn effeithiau Covid a pharhau i ymateb i'r cyd-destun newidiol a gyflwynir gan Brexit.

- c. **Sut y mae Cymru yn darparu bwyd maethlon ac iach i bawb** mewn cyd-destun o adnoddau'n prinhau a darpariaeth bwyd anghyfartal, yn ogystal â mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r golled barhaus o ran bioamrywiaeth.

Ni ellir mynd i'r afael â'r heriau hyn trwy adrannau unigol yn gweithio mewn seilos, ond yn hytrach, mae angen gweledigaeth a chydlynu cyffredinol. Gallai'r Comisiwn fynd i'r afael â'r cwestiynau strategol hyn, a chanfod ffyrdd i'w datrys ar y cyd drwy ddull cynhwysol ac aml-randdeiliad sy'n gyson â'i dull systemau.

2. Beth fydd rôl y Comisiwn?

Cefnogi dulliau gwneud Polisiâu Integredig:

Byddai comisiwn annibynnol yn caniatáu cydweithrediad gwell a mwy cydgysylltiedig ar draws y sector bwyd, gan gefnogi'r dulliau o lunio polisiâu er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol. Byddai'n galluogi cysylltu mwy o elfennau gwahanol y system fwyd gyda'i gilydd, a'n galluogi i adnabod elfennau rhyngddibynnol y system a chaniatáu cyflawniadau traws-sector. Byddai ganddo'r nod hefyd o greu graddfa a seilwaith a allai adeiladu ar yr enghreifftiau presennol o arfer da.

Ehangu at i fyny ac at allan:

Byddai cyflawniadau traws-sector yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r gwersi cynnar a ddysgwyd o brosiectau'r Economi Sylfaenol o ran yr angen i wneud yn siŵr bod gwahanol rannau o jig-so'r system fwyd er mwyn ehangu allan yn effeithiol. Gallai un darn coll o'r jig-so olygu methiant o ran cyflawni, a gallai hyn gynnig ateb i pam mae llwyddiant yn y maes hwn wedi bod yn anodd i'r Llywodraeth ei sicrhau hyd yma.

Dwyn y system i gyfrif:

Byddai'r Comisiwn yn dwyn gwahanol rannau o'r system i gyfrif er mwyn gwneud yn siŵr y gwneir cynnydd yn erbyn targedau ag amserlenni penodol (pum mlynedd) ac amcanion penodol (fel yr amlinellwyd, er enghraifft, ym maniffesto'r Gynghrair Polisi Bwyd² a'r adroddiad 'System Fwyd yng Nghymru sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol'³). Byddai dwyn rhannau o'r system i gyfrif yn golygu edrych ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd i wneud yn siŵr bod pob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn tynnu ei phwysau. Byddai hefyd yn gweld Cymru'n arwain y ffordd i sicrhau ein bod yn sicrhau'r ymddygiad cywir ar draws y system gyfan, o lefel ffermwyr i'r lefel gaffael er mwyn datblygu'r safonau priodol a sicrhau bod adnoddau digonol ar waith er mwyn gallu rheoleiddio'n effeithiol³. Byddai hefyd yn golygu gwneud yn siŵr bod gennym y safonau a'r arferion ffermio amaeth-ecolegol ar draws Cymru gyfan, a gwneud yn siŵr bod gennym y seilwaith cenedlaethol cywir ochr yn ochr â dulliau treialu lleol er mwyn gwneud yn siŵr y gellir ehangu prosiectau. Er enghraifft, byddai hyn yn golygu y byddai cyfleusterau prosesu lleol sy'n ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol Cymru yn cefnogi rhwydwaith o hybiau caffael bwyd wedi'i ategu gan bartneriaethau bwyd cynaliadwy ar draws Cymru gyfan, sy'n casglu a dosbarthu bwyd lleol wedi'i gynhyrchu'n lleol. Mae sicrhau bod prosesau caffael ar draws Cymru yn creu gwerth amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gwirioneddol yn hollbwysig (gan annog arferion ffermio amaeth-ecolegol ymhellach yng Nghymru), a sicrhau bod gennym gefnogaeth ar gyfer cadwyn gyflenwi amrywiol ac arloesol sy'n croesawu dulliau newydd, gan gynnwys Amgylchedd Rheoledig ac Amaethyddiaeth wedi'i Gefnogi gan y Gymuned.

² https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/2021/10/FPAC_English2021.pdf gweler y 6 chais penodol ar dudalen 2

³ [WWF Full Report Food Final 3.pdf](#) – gweler y 10 thema allweddol ar dudalen 7

Datblygu capasiti – o fewn y Llywodraeth a thu hwnt iddi:


Byddai'r Comisiwn yn darparu tystiolaeth i'r Llywodraeth er mwyn seilio ei phenderfyniadau arni. Byddai'n galluogi i Weinidogion siarad gydag awdurdod ar gamau gweithredu traws-sector y mae angen eu cymryd ac i greu enw da rhagorol am sgiliau system fwyd gyfan yng nghyd-destun y DU. Byddai hefyd yn cydnabod nad camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn unig sy'n galluogi newid yn y system. Byddai angen i'r comisiwn ymgysylltu â sefydliadau a dinasyddion, helpu i feithrin arbenigedd a gallu ar draws cyfranogwyr gwahanol yn y system fwyd, er mwyn galluogi newid. Byddai angen i hyn weithredu o fewn cyd-destun y DU hefyd.

3. Sut y gellir strwythuro'r Comisiwn?

Er mwyn cyflawni trawsnewidiad yn ein system fwyd i gyflawni deiet cynaliadwy, iach a hygyrch, mae'n hollbwysig ymgysylltu â phawb sy'n byw yng Nghymru, gan ddechrau taith o fod yn ddefnyddiwr goddefol i ddinesydd bwyd gweithredol. Mae dull o'r fath yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er mwyn cydnabod yr uchelgais hwn yn ffurfiol, gellir gwyrddroi strwythur y Comisiwn Bwyd, ac yn hytrach na dull gweithredu o'r brig i'r bôn ar gyfer llunio polisiau, gallai ddilyn dull gweithredu o'r bôn i'r brig. Byddai hyn yn mynd ymhellach na gweithredu fel proses ymgynghori ac, yn hytrach, byddai'r Pwyllgor yn ehangu ei waith yn rhanbarthol ar draws Cymru i gymunedau bwyd, er enghraifft Cynulliadau Bwyd y Bobl, Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy a sefydliadau cydweithredol, grwpiau cynhyrchwyr a'r diwydiant. Byddai'r grwpiau hyn yn rhan o'r cyngresau polisi bwyd rhanbarthol. Dyma un ffordd bosibl o strwythuro'r comisiwn:

a. Strwythur: 'stryd pedair ffordd' weithredol i Gymru

- i. **"Grwpiau" dinasyddion bwyd rhanbarthol** Gall grwpiau dinasyddion ehangu ymgysylltiad y cyhoedd a datrys cymunedol gyda pholisiau bwyd lleol a chenedlaethol a ffurfio'r sail ar gyfer datblygu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer y system fwyd a chynllun gweithredu mewn proses o ymgysylltu parhaus. Un o nodau penodol y grwpiau dinasyddion yw i fod yn gynhwysol drwy estyn allan i'r rhai sydd wedi ymddieithrio a/neu sy'n cynrychioli cymunedau wedi'u difreinio neu anodd eu cyrraedd a gellir hwyluso'r rhain drwy Bartneriaethau Bwyd Cynaliadwy ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- ii. **Cyngresau polisi bwyd rhanbarthol** a fydd yn cynnwys o leiaf 20 o gynrychiolwyr o'r sectorau bwyd allweddol: busnesau bwyd, ffermio (da byw, cnydau, garddwriaeth), cymunedau a chwmnïau cydweithredol, cyrff anllwydoraethol a chynrychiolwyr y diwydiant bwyd mewn awdurdodau lleol/byrddau iechyd. Byddai'r rhain yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn a byddent yn mireinio'r mewnbyn gan y grwpiau dinasyddion drwy gynnwys prosesau ar gyfer cyflawni cynllun gweithredu a gweledigaeth gyfatebol. Byddai'r aelodaeth yn cael ei hadnewyddu bob dwy flynedd a bydd yn seiliedig ar dargedau'r cynllun gweithredu.
- iii. **Is-bwyllgor Cabinet** a fyddai'n cynnwys gweinidogion allweddol, eu huwch swyddogion a'r Comisiwn. Mae'n rhaid i'r is-bwyllgor nodi'r polisiau allweddol presennol (gan gynnwys diwygiadau gofynnol) a pholisiau newydd arfaethedig ar gyfer cyflawni cynllun gweithredu cytûn.
- iv. **Comisiwn** o aelodau a Chomisiynydd sy'n adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Llywodraeth. Wedi'u penodi gan y Llywodraeth ac yn derbyn yr adnoddau ganddi, byddant yn gyfrifol am gyflawni ar y cynllun gweithredu a ysgogwyd gan y grwpiau dinasyddion ac a fireiniwyd gan cyngresau bwyd rhanbarthol ac is-bwyllgor y Cabinet.



4. Sut y gallai'r Comisiwn weithredu a sut byddai'n sicrhau atebolrwydd yn ein system fwyd?

Mae sefydlu Gweledigaeth Genedlaethol ar gyfer y System Fwyd a strategaethau a pholisïau cyfatebol ar gyfer system fwyd Cymru o'r bôn i'r brig yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio, gyda'r potensial i gyflawni pob un o saith nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai'r Comisiwn Bwyd yn seiliedig ar arloesedd, democratiaeth, a chyflawni, yn unol â'i flaenoriaethau strategol penodol a thryloyw. Fel yr amlinellwyd uchod, byddai ganddo strwythur a phensaernïaeth a fyddai'n grymuso rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu Gweledigaeth Genedlaethol ar gyfer y System Fwyd a chamau gweithredu strategol ar gyfer gwireddu'r Weledigaeth. Byddai hefyd yn ceisio cynyddu cyfranogiad eang, integreiddio gwybodaeth a blaenoriaethau ar sail ymarfer ar draws y rhanbarth a chydweithio ar draws sectorau.

a. Sut y byddai'n cyflawni'r nodau hyn?

- i. **Sut y gallai weithredu:** Gallai'r pŵer o fewn y strwythur ar gyfer y Comisiwn Bwyd gael ei rannu gan bob parti. Mae gan y grwpiau dinasyddion y pŵer i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer tywys polisïau system fwyd. Mae gan rhanddeiliaid rhanbarthol y system fwyd y pŵer i alluogi'r weledigaeth drwy gyflwyno'r systemau sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth hon. Mae is-bwyllgor y Comisiwn Bwyd yn datblygu'r polisi i gefnogi'r systemau hyn ac mae gan y Comisiwn Bwyd y pŵer dirprwyedig gan y Llywodraeth i weithredu'r polisi. Fodd bynnag, mae hefyd yn atebol i'r grwpiau dinasyddion a'r cyngresau rhanbarthol am weithredu'r polisi sy'n cyflawni'r cynllun gweithredu, ac maent yn atebol i'r Llywodraeth hefyd. Bydd hyn yn galw am adnoddau sy'n cynnwys ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth gyfathrebu wych.
- ii. **Yr egwyddorion arfaethedig ar gyfer atebolrwydd:** Fel un o Gomisiynau'r Llywodraeth, bydd yn atebol i Lywodraeth Cymru, a byddai Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth. Bydd

angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar gyllideb yn ystod oes 5 mlynedd y Comisiwn, a fydd yn cynyddu'n flynyddol wrth i gylch gwaith a chyrraedd y Comisiwn gynyddu. Ar lawr gwlad, achrediad o'r pridd i'r plât, wedi'i gyfryngu gan sefydliad trydydd parti, er enghraifft Cymdeithas y Pridd, yn debyg i'w rhaglen Bywyd am Oes ac wedi'i werthuso gan y gymuned academiaidd. Bydd achrediad yn seiliedig ar ddamcaniaeth o newid, gyda thargedau a fydd yn cael eu pennu gan y Cynllun Gweithredu ar gyfer y System Fwyd. Os na chyflawnir y targedau, bydd adborth gwerthuso yn nodi a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun gweithredu, systemau'r cynllun gweithredu neu'r polisïau a gyflwynwyd (e.e. cynllun achredu gyda Chymdeithas y Pridd). Byddai achrediad o'r math hwn hefyd yn darparu'r sylfaen dystiolaeth a'r llwyfan sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau'r Llywodraeth i ddatblygu "Brand Cymru" drwy'r gwaith Gwerthoedd Brand Cynaliadwy.

- iii. **Pwerau:** Byddai angen yr awdurdod priodol ar y Comisiwn i ddwyn cyfranogwyr ac adrannau unigol o system fwyd Cymru i gyfrif. Yn ogystal, byddai angen yr awdurdod priodol i ryngweithio ar draws y DU wrth gydweithio a chynnwys polisi bwyd Cymru ym mholisi'r DU, sy'n newid ar hyn o bryd (e.e. Comisiwn Masnach a Ffermio, DEFRA, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ac yn y blaen; yng nghyd-destun Bil y Farchnad Fewnol sy'n esblygu, a'r trefniadau masnachu allanol newidiol) ac adrodd yn ôl i Weinidogion a'r Senedd ar hyn. Mae awdurdod priodol yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant ac mae'r elfen hon o'r Comisiwn yn galw am ystyriaeth ofalus.
- iv. **Adrodd:** Byddai'r Comisiwn Bwyd yn cynhyrchu system adrodd flynyddol, annibynnol (wedi'i hadolygu gan gymheiriaid) a fyddai'n cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Byddai'n adrodd ar ei gyflawniadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol yn ystod cyfnod 5 mlynedd dilynol y rhaglen. Byddai'n cysylltu'n uniongyrchol â phrosesau cyfatebol, gan gynnwys yr adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac adolygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5. Y camau nesaf

- a. Rydym yn argymhell y dylid cynnal cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid arbenigol ar arfer gorau ar gyfer comisiynau llwyddiannus.

Mae arbenigedd yn y gymuned bolisi ehangach ar ddeinameg comisiynau blaenorol sydd wedi gweithio'n dda. Mae'n bwysig ein bod yn tynnu o'r profiadau hynny i adeiladu proses gadarn a all gyflawni amcanion y Comisiwn.

- b. Rydym yn argymhell gofyn am fewnbwn gan rhanddeiliaid ehangach er mwyn helpu i lunio a gwirio strwythur arfaethedig Comisiwn ar gyfer y System Fwyd i Gymru.

Rhannu'r cynnig ar gyfer Comisiwn Bwyd â chymuned rhanddeiliaid y system fwyd ehangach i ystyried unrhyw fewnbwn pellach cyn cwblhau'r cynllun gweithredu.